Annwyl Bawb

E-FWLETIN: 5 IONAWR 2009

Dim ond neges gyflym i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd, ac i'ch hysbysu bod cynhyrchiad Cwmni Morlan ***O Blith fy Mhobl*** a oedd i'w gynnal yn y Morlan nos Sul nesaf (11 Ionawr) **wedi ei ganslo**. Ymddiheuriadau mawr os yw hyn yn achosi unrhyw anghyfleustra.

Fe'ch atgoffir hefyd y bydd agoriad swyddogol arddangosfa Gareth Owen ***Cysgod y Capel*** yn cael ei gynnal yma am 7.30, nos Lun, 19 Ionawr. Bydd yr agoriad ar ffurf seiat gyda Harry James yn cadeirio a Gareth Owen yn bresennol i drafod ei waith. I'r arlunydd, mae'r seiat hwn yn rhan greiddiol o'r gwaith celf, ac mae croeso mawr i unrhyw un fynychu. Bydd yr arddangosfa, sy'n adleisio festri capel, yma tan 28 Chwefror.

Yn ngeiriau'r artist ei hun: "*Mae'r delweddau a welir yn tarddu o fy nghefndir personol, cefndir y 'Pethe'. Mae Cymreictod yn golygu rhywbeth gwahanol i bawb, ond i mi Cymreictod yw'r iaith Gymraeg, yr eisteddfod, barddoniaeth, gwleidyddiaeth heddychol a diwylliannol gyda chysgod y capel dros y cwbwl. Gobeithio fod y delweddau yn trosglwyddo'r teimlad o obaith, adeni ac atgyfodiad. Ni ddaw cyfnod y 'Pethe' fyth yn ôl ar yr union yr un ffurf, ond mae gan ddyn rhyw allu arbennig i ail-ddarganfod ei hun.*"

Os gwyddoch chi am unrhyw rai fyddai â diddordeb mewn cael gwybod am beth sy'n mynd ymlaen ym Morlan, mae pob croeso i chi anfon yr e-fwletin hwn ymlaen atyn nhw.

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-fwletin hwn bellach, rhowch wybod i ni trwy ateb y neges hon ac fe dynnwn eich enw o'r rhestr postio ar unwaith.

Cofion gorau

Carol Jenkins
Rheolwr